**Pwynt Gweithredu rhif 5 A allai'r cyngor roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynigion masnachu maethynnau – pryd y mae'n bwriadu cyflwyno adroddiad i'r cabinet/pwyllgor, a chrynodeb o'r hyn y bydd hwn yn ei gynnwys gan gynnwys unrhyw dargedau/cerrig milltir yn y dyfodol? √**

**Mae swyddogion yn bwriadu adrodd yn ffurfiol i'r cabinet ar gynigion masnachu maethynnau ar 7 Medi 2026**

1. Mae swyddogion yn cynllunio sesiwn friffio i'r **cabinet tua diwedd mis Gorffennaf** fel rhagarweiniad felly dylai hyn ffurfio sail yr adroddiad ffurfiol i'r cabinet.

2. Amlinelliad drafft o'r adroddiad:
   - Darparu dealltwriaeth fanwl o Adroddiad ar gyfnod 1 Ffermydd y Sir gan gynnwys amlinelliad o'r cyfleoedd lliniaru sydd ar gael i'r awdurdod (credydau nitrogen a ffosfforws)
   - Archwilio sut olwg fyddai ar gynllun masnachu credyd (gan gynnwys tâl fesul credyd), sy'n gysylltiedig â chyfleoedd lliniaru ar ystad ffermydd y sir.
   - Ystyried goblygiadau ar gyfer polisi ffermydd y sir
   - Ystyried yr angen i flaenoriaethu cynigion datblygu y gellir cynnig cyfleoedd lliniaru yn eu herbyn
   - Camau nesaf Adroddiad Ffermydd y Sir: nodi graddfa'r tir sydd ei angen ar gyfer niwtraliaeth maethynnau ffosfforws a nitrogen

3. Bydd elfen bellach o sesiwn friffio'r cabinet yn gosod y dull niwtraliaeth maethynnau (h.y., lliniaru llwyr) yng nghyd-destun ehangach dulliau amgen, gan gynnwys modelau trothwy ac integredig. Bydd hefyd yn amlinellu llwybrau posibl ar gyfer pontio o niwtraliaeth maethynnau, ynghyd â'r ffrydiau gwaith cysylltiedig ac amserlenni dangosol.

**Amlinelliad o'r cyfnod sy'n arwain at gyflwyno adroddiadau hyd at 7 Medi 2026**

- Adroddiadau sydd eu hangen ar TEAMS ar gyfer sylwadau Penaethiaid Corfforaethol (anfon at y Gwasanaethau Democrataidd i drefnu) – 13 Awst
- Adroddiadau i'w cymryd o TEAMS gan y Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer yr agenda cyn y cabinet – 20 Awst
- Cyfarfod cyn y cabinet = 24 Awst – 10.30am
- Golygiadau terfynol i'w gwneud i adroddiadau ar TEAMS ar gyfer y prif agenda erbyn 27 Awst